

CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bell a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorwyr R. Goode (Is-Gadeirydd) ac M. Lewis.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorydd M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr R. Sivagnanam (Cadeirydd) a P. Drake.

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(c) Cynnig Cyllideb Ddrafft y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2023/24 (CAT) –

Diben yr adroddiad oedd cael cymeradwyaeth y Cydbwyllgor ar gyfer Cyllideb Arfaethedig y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

Dechreuodd Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 Bro Morgannwg drwy ddweud, o ganlyniad i'r cyhoeddiad o ran derbyn setliad Llywodraeth Cymru yn hwyr ar 16 Rhagfyr 2022, wedi cyfarfod y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr 2022, yr ystyriwyd y byddai'n ddefnyddiol i Awdurdodau Partner gael eglurder ar eu setliadau ar gyfer 2023/24 ar gyfer gwneud penderfyniadau. Cytunwyd felly gan y Pwyllgor y byddai penderfyniad ar gyllideb 2023/24 yn cael ei ohirio tan fis Ionawr 2023.

Roedd effaith yr addasiadau i gyllideb 2023/24 yn ymwneud ag arbediad o 3% yn cael ei gymryd o'r Gyllideb Graidd, ynghyd â rhagdybiaethau cyflog a gyflwynwyd yng Nghyllideb Arfaethedig Ddrafft 2023/24 o £8.645m a oedd yn gynnydd net o

£314k. Nodwyd hyn ym mharagraff 2.2 yr adroddiad. Ychwanegodd y Swyddog fod £178k o arbedion wedi'u cymryd o'r Gyllideb Graidd drwy ddileu swyddi gwag ynghyd â nodi ffrwd incwm newydd, £492k ychwanegol yn y gyllideb i ariannu'r diffyg yn nyfarniad cyflog 2022/23, yn ogystal â'r dyfarniad cyflog 5% a ragwelwyd ar gyfer 2023/24.

Mae Cyllideb Gwariant Gros Arfaethedig y GRhR ar gyfer 2023/24 i'w gweld yn y tabl isod:

	2022/23	2023/24	2023/24
	Cyllideb	Cyllideb	Cynnydd/ Gostyngiad mewn
	Bresennol	Arfaethedig	Cyfraniadau
	£'000s	£'000s	£'000s
Cyllideb Gwariant Gros			
Pen-y-bont ar Ogwr	1,777	1,914	137
Caerdydd	4,811	5,009	198
Y Fro	1,743	1,722	(21)
Cyfanswm y Gyllideb	8,331	8,645	314

I gloi, tynnodd y Swyddog sylw'r Aelodau at eitem o risg mewn perthynas â Dyfarniadau Cyflog 2023/24. Awgrymodd yr arweiniad cyffredinol a dderbyniodd Awdurdod Bro Morgannwg ym mis Rhagfyr 2022 fod dyfarniad cyflog o 5% yn lefel briodol i'w rhagweld ar gyfer 2023/24, fodd bynnag, yn fwy diweddar o ganlyniad i'r gwaith a wnaed gan y CLIL ar drafodaethau cyflogwyr cenedlaethol, roedd rhywfaint o awgrym bod 6% yn lefel fwy tebygol ar gyfer y cyfnod yn ogystal â setliad cyfradd safonol tebyg i'r hyn a welwyd yn 2022/23. Felly, byddai'r gyllideb arfaethedig yn cario ychydig o risg mewn perthynas â dyfarniadau cyflog ac o bosib byddai angen ei rheoli drwy gydol y flwyddyn sydd i ddod.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, ceisiodd y Cynghorydd Goode eglurder o ran y rheswm dros symud cyfraniadau ar gyfer pob Awdurdod Partner, yn unol â'r tabl uchod, a welodd gynnydd mewn cyfraniadau i Ben-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd ond gostyngiad i'r Fro. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 y Fro fod ffigurau'r boblogaeth a ddefnyddiwyd o fewn adran Cyllideb Graidd yr adroddiad yn adlewyrchu'r data a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru wrth gyfrifo setliadau cyllideb 2023/24 i Gynghorau. Felly, roedd y newidiadau mewn cyfraniadau oherwydd ffigurau poblogaeth ar gyfer pob ardal Awdurdod fel y nodir yn nhabl 2.5 yr adroddiad.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO Cyllideb Arfaethedig y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2023/24.

(2) GOFYN i bob Awdurdod Partner gymeradwyo'r Gyllideb Arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn ysgrifenedig erbyn 10 Mawrth, 2023.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) O ystyried cynnwys yr adroddiad i geisio cytundeb y Cyd-Bwyllgor yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.
- (2) Yn unol â gofyniad y Cytundeb Cydweithio i ganiatáu i'r gyllideb gael ei chwblhau cyn dechrau blwyddyn ariannol 2023/24.